

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu Cadarnhau

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 7 Hydref am 11.45am dros Zoom

Yn bresennol

Emma Woollett	Cadeirydd
Mark Hackett	Prif Weithredwr
Steve Spill	Is-gadeirydd
Alison Stokes	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Andrew Jarrett	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Christine Morrell	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Therapiau a Gwyddor Iechyd
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Gareth Howells	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Jackie Davies	Aelod Annibynnol
Keith Lloyd	Aelod Annibynnol (tan 236/21)
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Maggie Berry	Aelod Annibynnol
Mark Child	Aelod Annibynnol
Martyn Waygood	Aelod Annibynnol
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol
Tom Crick	Aelod Annibynnol

Hefyd yn bresennol:

Alison Clarke	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Therapiau a Gwyddor Iechyd
Joanne Abbott-Davies	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth
Matt John	Cyfarwyddwr Digidol
Nick Samuels	Cyfarwyddwr Cyfathrebu Dros Dro
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Sam Lewis	Dirpwy Gyfarwyddwr Cyllid
Sue Evans	Cyngor Iechyd Cymuned
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Brian Owens	Cyfarwyddwr Grŵp y Gwasanaethau Cynradd, Cymunedol a Therapiau (ar gyfer cofnodion 230/21, 231/21 a 232/21)

Rhif y Cofnod		Cam gweithredu
223/21	CROESO A CHYFLWYNIADAU	
	Croesawodd Emma Woollett bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Christine Morrell a Debbie Eyitayo, a oedd wedi'u penodi'n barhaus i rôl y	

	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd a rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, yn y drefn honno. Croesawodd hefyd Gareth Howells a oedd wedi dychwelyd i'r sefydliad fel Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Siân Harrop-Griffiths, y Cyfarwyddwr Strategaeth, Darren Griffiths, y Cyfarwyddwr Cyllid, a Reena Owen, Aelod Annibynnol.	
224/21	DATGAN BUDDIANNAU	
	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
225/21	STORI GAN GLAF	
	Derbyniwyd stori gan glaf. Roedd y stori'n nodi profiad teulu gŵr oedrannus a dderbyniwyd i Ysbyty Treforys yn ystod y cyfnod clo. Roedd wedi cael laryngectomi yn y gorffennol a hefyd yn dioddef o ddementia fasgwlaidd. Bu'n rhaid i'w wraig ffarwelio ag ef yn yr adran achosion brys ac ni welodd ei gŵr wedyn am naw wythnos. Adroddodd eu merch sut y cawson nhw gymorth i gadw mewn cysylltiad a sut y daliodd ei thad Covid-19 tra oedd yn yr ysbyty. Nid oedd y teulu'n credu y byddai'n dod adref ond bu'r staff yn cynorthwyo'r teulu i gadw mewn cysylltiad trwy iPad. Gwnaeth hyn wahaniaeth amlwg i'r claf, yn ogystal ag i'w deulu, gan roi gobaith iddynt. Fe wellodd y claf ac yn y pen draw fe ddychwelodd adref. Wrth drafod stori'r claf, nododd Emma Woollett fod y stori'n un a fyddai'n gyfarwydd i lawer. Roedd yn dangos pwysigrwydd yr holl gefnogaeth ehangach y mae staff yn ei darparu i unigolion a'u teuluoedd, yn enwedig o ran cyfathrebu pan nad oedd yn bosibl ymweld. Cytunodd Gareth Howells, gan ychwanegu bod y bobl sy'n derbyn gofal gan y bwrdd iechyd yn werthfawr. Dywedodd fod y stori'n dangos ei bod hi'n bosibl gwneud y gorau i bobl hyd yn oed yn yr amgylchiadau mwyaf heriol.	
226/21	COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL	
	Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2021 fel cofnod gwir a chywir.	

227/21	MATERION YN CODI	
	(i) <u>208/21 Cynigion am Theatrau Ychwanegol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot</u> Dywedodd Emma Woollett ei bod, yn dilyn cyfarfod blaenorol y bwrdd, wedi derbyn e-bost gan Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe, yn tynnu sylw at y ffaith fod y cynnig i ddatblygu canolfan ragoriaeth mewn llawfeddygaeth orthopedig ac asgwrn cefn yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys Ward G, yn dal i fod yn destun ymgysylltu o dan y cynigion ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn. Felly byddai angen aros am ganlyniad terfynol yr ymgysylltiad hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Byddai'r Bwrdd yn derbyn y diweddariad yn y cyfarfod arbennig i'w drefnu ar gyfer 28 Hydref 2021.	
228/21	COFNOD GWEITHREDU	
	Derbyniwyd a nodwyd y cofnod gweithredu a darparwyd y diweddariad canlynol: (i) <u>Cam Gweithredu Dau</u> Dywedodd Joanne Abbott-Davies y byddai diweddariad ar y gwaith cydgynhyrchu'n cael ei dderbyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021. Byddai'n nodi'r broses ar gyfer datblygu'r cynllun gweithredu a'i gyflwyno trwy grŵp tasg a gorffen.	
229/21	ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
	Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd am weithgareddau diweddar. Wrth gyflwyno'r diweddariad, tynnodd Emma Woollett sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd y broses recriwtio ar gyfer yr aelod cyllid annibynnol wedi digwydd ac roedd argymhelliad wedi'i wneud i'r Gweinidog; - Penodwyd hefyd i'r swyddi gweithredol a fu'n swyddi dros dro cyn hyn; - Byddai Pam Wenger, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, yn gadael y sefydliad ym mis Tachwedd 2021;	

	- Roedd y sefyllfa ar draws y ddau ysbyty a'r system ofal yn heriol iawn, ac roedd hi'n ddiolchgar iawn i bawb a oedd yn gweithio mor galed dan bwysau i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal gorau posibl; - Roedd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gofyn i'w diolchiadau gael eu mynegi i'r holl staff am eu gwaith caled parhaus; - Roedd y cyfarfodydd wythnosol gydag aelodau'r Senedd wedi eu hadfer yng ngoleuni'r sefyllfa heriol; - Roedd y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hadolygu.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi i'r adroddiad.	
230/21	ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi diweddariad gan y Prif Weithredwr am weithgareddau diweddar. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Mark Hackett sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd y bwrdd iechyd yn wynebu her eithriadol yn ystod y don bresennol o Covid-19 ond roedd y rhaglen frechu lwyddiannus yn helpu i liniaru'r risgiau; - Roedd trosglwyddiadau cymunedol Covid-19 yn parhau'n uchel gan olygu bod nifer o staff yn gorfod hunanynysu; - Roedd lefelau'r gweithgareddau arferol yn codi ond roedd heriau i gadw'r rhain ar wahân i wasanaethau Covid-19; - Roedd staff yn gweithio dan bwysau aruthrol ac wedi blino; - Efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau mwy gweithredol ynghylch darparu gwasanaethau i helpu gyda'r galwadau ar y gwasanaethau; - Roedd cynigion yn cael eu datblygu i wneud y cyflogau am ofal yn y cartref yn gyson â'r cyflog byw er mwyn datblygu pecyn mwy cystadleuol; - Cynigiwyd cynyddu'r nifer o welyau mewn cartrefi gofal i ddarparu ar gyfer y cleifion hynny yn yr ysbytai nad oedd angen iddynt fod yno; - Byddai mwy o gapasiti arhosiad byr yn cael ei greu i leddfu'r pwysau ar yr adran achosion brys a derbyniwyd cyllid hefyd i	

	leoli'r ganolfan gofal sylfaenol brys ac argyfwng ar safle Ysbyty Treforys gyda'r uned meddygon teulu aciwt; - Byddai'r rhith-wardiau'n cael eu symud ymlaen ym mhedwar o'r wyth clwstwr gofal sylfaenol erbyn diwedd y flwyddyn; - Roedd y cynllun gwella ar gyfer llawfeddygaeth gardiaidd wedi'i gynnwys yn ddiweddarach yn yr agenda mewn ymateb i adolygiad allanol. Nid oedd unrhyw beth yng nghanfyddiadau'r adroddiad i awgrymu na ddarparwyd gofal cadarn i gleifion ond roedd meysydd lle y gallai'r gofal wella. Mae nifer o achosion wedi'u nodi fel rhai y gellid dysgu gwersi ohonynt. Cysylltwyd eisoes â'r holl deuluoedd a oedd yn gysylltiedig â'r achosion o bryder a nodwyd yn yr adroddiad; - Byddai argymhellion y broses ymgysylltu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn yn cael eu rhannu â'r Bwrdd mewn cyfarfod arbennig yn ddiweddarach yn y mis er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried yr ymatebion; - Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynllun adfer a chynaliadwyedd drafft gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2021 ac i'r cynllun terfynol gael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2022. Byddai hyn yn canolbwyntio ar y tair i bum mlynedd nesaf. Cynhaliwyd gweithdy gydag arweinwyr clinigol y diwrnod blaenorol i nodi'r weledigaeth, ac roedd yn cynnwys iechyd y boblogaeth. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Holodd Nuria Zolle a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i sut byddai'r 'normal newydd' yn edrych i wasanaethau o ystyried effaith y pandemig. Dywedodd Mark Hackett fod y cynnydd yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun blynyddol i gael ei adolygu er mwyn gwerthuso'r cynnydd yn erbyn y cynllun am y chwe mis cyntaf ac ystyried a oedd angen adolygu taflwybrau am weddill y flwyddyn i adlewyrchu'r realiti presennol. CAM GWEITHREDU - gwerthusiad o allbynnau'r cynllun blynyddol a'r cynnydd hyd yma, ynghyd â goblygiadau hyn i'r taflwybrau am weddill y flwyddyn, i'w derbyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Nododd Keith Lloyd ymdrech barhaus yr holl staff dan bwysau aruthrol gan gynnwys y rhai o fewn gofal sylfaenol. Holodd pa fentrau oedd ar waith i gefnogi gwasanaethau gofal sylfaenol o ystyried mai'r rhain oedd y pwynt cyswllt cyntaf i gleifion. Cadarnhaodd Mark Hackett fod mwy y gellid ei wneud yn hyn o beth, gan fod gwasanaethau gofal sylfaenol yn wynebu galw cynyddol. Roedd angen i'r tîm gweithredol weithio gyda'r Cyngor Meddygol Lleol a chyrrff a chontractwyr lleol	SHG
--	--	-----

	eraill i benderfynu ar y ffordd orau i fuddsoddi mewn gwasanaethau o'r fath. Ychwanegodd Brian Owens y ceir proses gan feddygon teulu sy'n sbarduno ystod o gamau cefnogi pan fo meddygfeydd yn wynebu lefelau dwysáu uchel. Fel rhan o'r drafodaeth am fynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, dywedodd Brian Owens fod 33 o bractisau wedi gweithredu 'AskmyGP' ar ddechrau'r pandemig er mwyn darparu dull arall i gleifion gael mynediad at wasanaethau ac er mwyn helpu i frysbennu'r galw. Fodd bynnag, er bod hyn bellach wedi gostwng i 28 practis, roedd mynediad at wasanaethau'r holl bractisau'n parhau'n dda. Dywedodd fod ôl-groniad sylweddol ymhlith y rhai a oedd am gael mynediad at wasanaethau. Roedd yr achosion wedi cronni yn ystod y pandemig ac roedd y galw'n dal i gynyddu. Yn seiliedig ar hynny, nid y diffyg mynediad a oedd yn achosi cleifion i aros yn hirach, ond yn hytrach roedd y galw bellach yn fwy na'r capasiti.	
Penderfyniad:	- Dylid nodir adroddiad; - Gwerthusiad o allbynnau'r cynllun blynyddol a'r cynnydd hyd yma, ynghyd â goblygiadau hyn i'r taflwybrau am weddill y flwyddyn, i'w derbyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	SHG
231/21	NEWID YN NHREFN YR AGENDA	
	Newidiwyd trefn yr agenda a thrafodwyd eitem 2.3 nesaf.	
232/21	ASESIAD O ANGHENION FFERYLLOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r asesiad o anghenion fferyllol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Brian Owens sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr asesiad o anghenion fferyllol yn ofyniad newydd ledled Cymru; - Roedd yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gyhoeddi ei asesiad erbyn 1 Hydref 2021 felly roedd y fersiwn gyfredol ar gael ar wefan y bwrdd iechyd ond byddai'n cael ei diweddarau'n amodol ar unrhyw newidiadau; - Roedd nifer o randdeiliaid wedi'u cynnwys yn yr asesiad; - Roedd y bwrdd iechyd yn cael ei wasanaethu'n dda o ran gwasanaethau fferyllol, heb unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.	

	Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Gofynnodd Martyn Waygood am gadarnhad y byddai unrhyw geisiadau newydd i sefydlu fferyllfa yn ardal y bwrdd iechyd yn dal i gael eu hystyried gan grŵp y ceisiadau fferyllol. Ymatebodd Brian Owens, er nad oedd bylchau yn y ddarpariaeth, nad oedd hyn yn golygu na fyddai ceisiadau'n cael eu derbyn mwyach, a phe bai rhai'n cael eu derbyn, byddent yn cael eu rhannu gyda'r grŵp i'w hystyried, ynghyd â'r asesiad o anghenion er mwyn darparu'r cyd-destun. Cydnabu Nuria Zolle fod y bwrdd iechyd wedi elwa o ddarpariaeth lawn ond ceisiodd sicrwydd nad oedd unrhyw anghydraddoldebau o ran cael mynediad. Ymatebodd Brian Owens fod dosbarthiad daearyddol y fferyllfeydd yn golygu bod y ddarpariaeth yn deg ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd ond nad oedd hynny'n golygu na fyddai'n heriol i rai gael mynediad at bob un ohonynt. Dywedodd Mark Hackett y byddai'n fuddiol ystyried a fyddai unrhyw wasanaethau pellach y gallai'r bwrdd iechyd ofyn i fferyllfeydd eu gwneud fel rhan o'r gwasanaethau 'uwch' neu 'ychwanegol' er mwyn rhoi cymorth i atal afiechydon a/neu roi cymorth lles i'r bobl yn y gymuned. Awgrymodd Emma Woollett y dylid ystyried y camau nesaf ar gyfer y gwasanaethau fferyllol, o ran iechyd y boblogaeth, tegwch mynediad a'r cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau ychwanegol. Dylai hyn gael ei rannu â'r Bwrdd Rheoli ac yna'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cytunwyd ar hyn. CAM GWEITHREDU - crynodeb o'r camau nesaf posibl ar gyfer fferyllfeydd, yng nghyd-destun strategaeth iechyd y boblogaeth, pwysigrwydd mynediad teg a'r cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau ychwanegol, i'w rhannu â'r Bwrdd Rheoli ac yna â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.	BO
Penderfyniad:	- Dylid nodi yr adroddiad; - Crynodeb o'r camau nesaf posibl ar gyfer fferyllfeydd, yng nghyd-destun strategaeth iechyd y boblogaeth, pwysigrwydd mynediad teg a'r cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau gwell, i'w rhannu â'r Bwrdd Rheoli ac yna â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. - Cymeradwyo yr asesiad o anghenion fferyllol yn unol ag argymhelliad y Bwrdd Rheoli.	BO
233/21	CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU CARDIAIDD	

Derbyniwyd adroddiad yn nodi cynllun gwella'r gwasanaethau cardiaidd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Richard Evans sylw at y pwyntiau canlynol:

- Darparwyd gwasanaethau llawfeddygol cardiaidd ar gyfer De Cymru mewn dau leoliad - Caerdydd ac Abertawe (Ysbyty Treforys);
- Comisiynwyd GIRFT (Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf) gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) i gynnal adolygiad allanol o'r ddau wasanaeth oherwydd pryder ynghylch byrddau iechyd yn cwrdd â'u ffigurau penodedig ar gyfer y triniaethau a wnaed;
- Sylwodd y tîm GIRFT fod Treforys yn uned gardiaidd fach (29ain o'r 31 canolfan yng Nghymru a Lloegr). Roedd nifer y marwoalethau'n gyson â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, ond cododd GIRFT bryderon penodol mewn perthynas â phedair agwedd - metrigau ansawdd, canlyniadau llawfeddygaeth falf mitral, problemau'n ymwneud â llwybrau cleifion a phrosesau a llawfeddygaeth aortofasgwlar (a oedd yn fater ledled Cymru);
- Gwnaed nifer o argymhellion, a gweithredwyd rhai ohonynt ar unwaith, gan gynnwys meddygon ymgynghorol yn unig yn gwneud llawdriniaethau a phob llawdriniaeth falf mitral yn cael eu gwneud gan y ddau lawfeddyg arbenigol;
- Mae cynllun gweithredu bellach ar waith er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhellion sy'n weddill;
- Cyflogwyd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon gan y Cyfarwyddwr Meddygol i gynnal adolygiad gwahoddedig o'r gwasanaeth. Y nod oedd iddynt gynghori ar yr arferion gorau mewn perthynas â llywodraethu ansawdd ac mewn perthynas â dyhead am welliant parhaus, ynghyd â chynnal adolygiad o achosion y cleifion a fu farw'n dilyn llawdriniaeth falf mitral, er mwyn sefydlu unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud i'r ymarfer;
- Bu'r bwrdd iechyd yn cyflwyno data'n rheolaidd i'r Archwiliad Cenedlaethol a gynhaliwyd gan Archwilio Llawfeddygaeth y Galon. Roedd yr archwiliad yn edrych ar fetrigau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir gan GIRFT ac yn mesur canlyniadau'n wahanol – bydd angen archwilio'r rhesymau dros y gwahaniaethau, ond roedd hyn yn amlygu pam nad oedd y

	bwrdd iechyd wedu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa a amlygwyd gan GIRFT; - Rhannwyd yr adroddiad a'r cynllun gweithredu â Llywodraeth Cymru, AGIC, Archwilio Cymru, a swyddfa'r Ombwdsmon. Mae byrddau iechyd eraill hefyd yn ymwybodol o'r adroddiad a'r cynllun gweithredu. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Nuria Zolle ei bod yn bwysig bod canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu rhannu'n ehangach er mwyn sicrhau nad oedd pryderon o'r fath o fewn gwasanaethau eraill. Ymatebodd Mark Hackett fod ymateb y gwasanaeth i ganfyddiadau'r adroddiad a'r gwaith yr oedd ei angen mewn ymateb i hyn wedi bod yn gadarnhaol, ond roedd trefniadau llywodraethu ansawdd ar draws y bwrdd iechyd bellach yn cael eu hadolygu i sicrhau bod grwpiau'r gwasanaethau'n ymwybodol o unrhyw faterion yn gynnar. Ychwanegodd Richard Evans fod dangosfwrdd ansawdd yn cael ei sefydlu a fyddai'n darparu gwybodaeth o'r fath mewn 'amser real' at y dyfodol. Dywedodd Mark Hackett y byddai angen ystyried sut y byddai'r gwaith o wella llawfeddygaeth gardiaidd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ansawdd ar gyfer y cynllun blynyddol y flwyddyn nesaf a'r cynllun adfer a chynaliadwyedd yn y tymor hirach. Dywedodd Pam Wenger y byddai'r adolygiadau llywodraethu ansawdd yn dangos pa drefniadau oedd ar waith o fewn grwpiau'r gwasanaethau a sut yr oedd y rhain yn adrodd i'r strwythurau corfforaethol. Roedd grŵp tasg a gorffen amlddisgyblaethol bach yn adolygu dogfennaeth ac yn arsylwi cyfarfodydd i ddatblygu set o argymhellion. Roedd cydweithwyr archwilio mewnol hefyd wedi cael eu cyflogi fel 'cyfeillion beirniadol'. Byddai'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli ddiwedd Tachwedd 2021 gyda set o safonau disgwylid i gydymffurfio â nhw. Yna byddai hyn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Archwilio. Dywedodd Emma Woollett y byddai'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad GIRFT yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a fyddai wedyn yn adrodd i'r Bwrdd.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi i'r adroddiad; - Dylid cymeradwyo i'r dull gweithredu a'r cynllun gweithredu i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol eu gweithredu gyda thîm Grŵp Gwasanaethau Ysbyty Treforys mewn ymateb i adroddiad GIRFT;	

	- Dylid cymeradwyo rôl y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wrth oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r cynllun gwella; - Dylid nodi bod adolygiad yn cael ei gynnal o drefniadau llywodraethu ansawdd o fewn y grwpiau gwasanaeth, ac y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio.	
234/21	MATERION ALLWEDDOL PWYLLOGRAU'R BWRDD	
	(i) <u>Pwyllgor Archwilio</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Archwilio. (ii) <u>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. (iii) <u>Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, a chynhaliwyd y drafodaeth ganlynol. Dywedodd Steve Spill fod yr aelodau wedi trafod yn y cyfarfod blaenorol a oedd angen ystyried symud CAMHS (gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ôl i'r bwrdd iechyd. Roedd BIP Cwm Taf yn darparu'r gwasanaethau ledled De Cymru. Sicrhodd Joanne Abbott-Davies fod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer monitro darpariaeth y gwasanaethau hyn, gyda chyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda bwrdd iechyd y darparwr i ystyried taflwybrau a gwelliannau. Roedd perfformiad wedi bod yn gwella, gyda'r gwasanaeth yn cwrdd â holl dargedau Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf chwe mis yn ôl, ond oherwydd pwysau parhaus roedd y perfformiad bellach wedi dechrau dirywio. Rhoddwyd ystyriaeth yn y gorffennol i ddychwelyd y gwasanaeth ac roedd diogelwch clinigol yn fater pwysig gan mai nifer gyfyngedig o staff arbenigol a oedd ar gael i redeg y gwasanaeth. Pe bai'r bwrdd iechyd yn rheoli ei wasanaeth ei hun, fe allai ei chael yn anodd denu'r staff i'w redeg. Dywedodd Gareth Howell mai mater arall oedd na ddylai plant fod yn gleifion mewnol ar ward oedolion, sef y sefyllfa ar hyn o bryd gyda'r gwely 'addas i'r oedran' ar ward F yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Dywedodd y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach gyda	

	chyfarwyddwyr Cymru Gyfan y grŵp cymheiriaid nyrsio, er mwyn i hyn gael ei ystyried yn ehangach. Dywedodd Andrew Jarrett y byddai'n cefnogi'r cais i'r tîm gweithredol ystyried y potensial i ddychwelyd y gwasanaeth ac y byddai'n croesawu ystyried hyn ar sail amlasiantaethol. Awgrymodd Mark Hackett y dylai Joanne Abbott-Davies, Gareth Howells a'r awdurdodau lleol drafod y camau y gellid eu cymryd i wella CAMHS, yn ogystal ag yn ehangach, gan ganolbwyntio ar wasanaethau camu i fyny/i lawr ac ar gysylltiadau rhwng CAMHS a phediatreg gymunedol. CAM GWEITHREDU - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth, Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf a'r awdurdodau lleol i drafod y camau y gellid eu cymryd i wella CAMHS, yn ogystal ag yn ehangach, gan ganolbwyntio ar wasanaethau camu i fyny/i lawr a'r cysylltiadau rhwng CAMHS a phediatreg gymunedol. Dywedodd Alison Stokes fod mwy a mwy o deuluoedd yn gofyn am gefnogaeth iddynt eu hunain i geisio rhoi cymorth i anwyliaid ifanc â phryderon iechyd meddwl. Dywedodd fod y trydydd sector bellach wedi ei lethu gan y galw. Dywedodd Mark Hackett fod angen ystyried hefyd maes o law sut i fuddsoddi'r arian cenedlaethol a ddisgwylir ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant. Ymatebodd Joanne Abbott-Davies fod grŵp cynllunio iechyd emosiynol a lles plant a phobl ifanc ar waith. Mae'r grŵp yn gwneud penderfyniadau am gyllid fel rhan o drefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau y caiff ei dargedu at y meysydd cywir. Awgrymodd Emma Woollett y dylid cynnal adolygiad strategol a chyfannol o'r gwasanaeth CAMHS a bod adroddiad yn cael ei roi i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cytunwyd ar hyn. CAM GWEITHREDU - cynnal adolygiad strategol a chyfannol yn seiliedig ar drafodaeth am y gwasanaeth CAMHS a rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. (iv) <u>Pwyllgor Perfformiad a Chyllid</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, a chynhaliwyd y drafodaeth ganlynol: Nododd Andrew Jarrett y cyfyngiadau ariannol a bod gwaith recriwtio Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi'i rewi mewn ymateb i hyn. Holodd ai dyma oedd y cam gweithredu cywir o ystyried y pryderon am recriwtio/cadw staff a lles staff. Ymatebodd Sam Lewis ei bod yn ofynnol i bob rhan o'r bwrdd iechyd wneud arbedion ariannol	JAD/GH SHG
--	--	--------------------------

	a bod recriwtio wedi'i rewi o fewn swyddogaeth y gweithlu gan iddi fethu â sefydlu cynllun arbedion. Bellach, aethpwyd i'r afael â hyn ac mae'r mater o atal recriwtio yn cael ei ailystyried. Ychwanegodd Debbie Eyitayo fod adolygiad llawn yn cael ei gynnal o gyllideb, effeithlonrwydd ac arbedion Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. (v) <u>Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chynhaliwyd y drafodaeth ganlynol: Dywedodd Steve Spill fod y pwyllgor, yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach yr wythnos honno, wedi cynnal trafodaeth gynhwysfawr ar adroddiad Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a oedd yn fater diweddarach ar agenda'r Bwrdd, yn ogystal â chynnig y dylid cynnal 'adroddiad at wraidd y mater' am reoli heintiau o ystyried nad oedd y perfformiad yn gwella. Ychwanegodd Gareth Howells i'r drafodaeth am reoli heintiau fod yn fuddiol iawn gan fod gwir angen i'r bwrdd iechyd edrych yn fanwl ar hyn. Ddwy flynedd ynghynt, dim ond un neu ddau achos o <i>clostridium difficile</i> a gafwyd bob mis a byddai 'adroddiad at wraidd y mater' yn helpu i ddeall y broblem sylfaenol. Holodd Mark Hackett a oedd gan y pwyllgor unrhyw bryderon am yr arweinyddiaeth ar gyfer rheoli heintiau. Cadarnhaodd Steve Spill nad oedd gan aelodau unrhyw bryderon fel hyn gan eu bod yn teimlo bod yr uwch dîm arwain yn monitro'r sefyllfa'n agos a bod y strwythur rheoli o fewn y tîm rheoli heintiau hefyd yn gryf. Yr hyn yr oedd angen ei benderfynu oedd y rhesymau sylfaenol dros y cynnydd mewn achosion. Rhoddodd Mark Hackett sicrwydd y byddai'r Bwrdd Rheoli'n monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ansawdd bob chwarter, gan ddechrau ym mis Hydref 2021. Byddai hyn yn cynnwys gwneud dewisiadau i fynd i'r afael â'r problemau. Nododd Emma Woollett ei bod yn galonogol clywed bod y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn perthynas â rheoli heintiau, ond ei bod yn bwysig i'r pwyllgor a'r bwrdd gael eu diweddarau ynghylch pryd y byddai'r gwelliannau'n cael eu gweld. (vi) <u>Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.	
235/21	ACHOS BUSNES AR GYFER LLAWDRINIAETH THORASIG	

Derbyniwyd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i'r achos amlinellol strategol ar gyfer llawfeddygaeth thorasig.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Joanne Abbott-Davies sylw at y pwyntiau canlynol:

- Roedd y chwe bwrdd iechyd ledled De a Chanolbarth Cymru, ynghyd â WHSSC a WAST (Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlaens Cymru), wedi cydweithredu ar ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018 i greu un ganolfan ar gyfer llawfeddygaeth thorasig yn Ysbyty Treforys;
- Fel rhan o'r gwaith, datblygwyd model gwasanaeth modern ar gyfer llawfeddygaeth thorasig, gyda'r mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wneud yn lleol a dim ond y triniaethau arbenigol yn cael eu gwneud yn y ganolfan thorasig - roedd y byrddau iechyd, WAST a WHSSC bellach wedi cytuno ar hyn;
- Roedd yr achos amlinell strategol wedi'i ddatblygu dros y chwech i naw mis diwethaf;
- Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r ganolfan thorasig yn gweithredu o 2025, gan ddibynnu a fyddai cyfalaf ar gael;
- Byddai angen gwneud newidiadau sylweddol i'r llwybrau ar draws pob un o'r chwe bwrdd iechyd;
- Datblygwyd senarios tebygol ar gyfer costau a gweithgarwch, yn seiliedig ar gynnydd mewn gweithgarwch i gwrdd â'r diffygion gwybyddus mewn capasiti, yn ogystal ag er mwyn gallu rhoi llawdriniaethau i gleifion â chyflyrau anfalaen;
- Darparwyd llythyrau o gefnogaeth gan bump o'r byrddau iechyd a WAST, ac wedi hynny byddai'r achos busnes amlinellol strategol yn cael ei gyflwyno pe bai'n cael ei gymeradwyo gan y bwrdd iechyd;

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Cyfeiriodd Nuria Zolle at y ffaith bod y gwasanaeth yn cael ei ad-drefnu o ddwy ganolfan i un. Eto i gyd, roedd y costau rhedeg yn cynyddu a gofynnodd am eglurder ynghylch y rhesymau dros hyn. Dywedodd Joanne Abbott-Davies nad oedd y naill ganolfan na'r llall yn cwrdd â manyleb gwasanaeth WHSSC ar hyn o bryd ac nad oedd gallu digonol i ateb y galw, felly byddai angen cynnydd mewn gweithgarwch i ateb y niferoedd a gomisiynwyd gan WHSSC. Yn ogystal, roedd cleifion â chyflyrau anfalaen yn cael eu trin â meddyginiaeth ar hyn o bryd ac yn gyffredinol roedd llawdriniaeth wedi'i neilltuo i'r rhai â chanser oherwydd y cyfyngiadau o ran capasiti. Ond o dan y model gwasanaeth newydd, byddai capasiti digonol i drin

	y rhai y byddai o fudd iddynt gael llawdriniaeth. Roedd hyfforddai meddygol wedi bod yn archwilio lefelau'r gweithgarwch ar gyfer achosion anfalaen er mwyn nodi'r hyn a fyddai'n ofynnol i ateb yr angen ar gyfer cyflyrau anfalaen. Holodd Steve Spill a fyddai'r achos amlinellol strategol yn nodi'r opsiwn a ffefir, fel rhan o'r cyflwyniad i Lywodraeth Cymru. Ymatebodd Joanne Abbott-Davies nad oedd angen hynny ar hyn o bryd ond unwaith y byddai'r achos busnes amlinellol yn barod i'w gyflwyno, byddai'r opsiwn a ffefir yn cael ei amlygu. Nododd Martyn Waygood y byddai datblygu un ganolfan yn arwain at nifer o staff yn trosglwyddo i safleoedd eraill a gofynnodd am sicrwydd bod hyn wedi'i drafod gyda'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio. Dywedodd Joanne Abbott-Davies fod staff o'r ddau safle presennol wedi'u cynnwys ym mhob cam hyd yma, ac y byddai hyn yn parhau. Byddai'r rhai a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol yn rhan o'r broses newid sefydliadol ar gyfer Cymru Gyfan. Cadarnhaodd y cytunwyd y byddai unrhyw staff a benodwyd i swyddi yn ystod y cam cynllunio yn ymwybodol y gallai lleoliad eu swyddi newid.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r adroddiad; - Dylid cytuno ar yr amlinelliad o ganlyniadau refferniw ychwanegol rhwng £5m i £8.8m y flwyddyn, y bydd angen iddo gael ei ariannu'n llawn gan WHSSC, a chytuno ar y gofynion cyfalaf rhwng £24.7m a £42.2m y bydd angen ei ariannu'n llawn gan Llywodraeth Cymru. - Cymeradwyo'r achos amlinellol strategol a'r cyflwyniad dilynol i Lywodraeth Cymru i'w hystyried yn erbyn rhaglen gyfalaf Cymru Gyfan.	
236/21	ACHOS BUSNES AR GYFER SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH Y LABORDAI (LIMS)	
	Derbyniwyd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr achos busnes ar gyfer system rheoli gwybodaeth labordai (LIMS). Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Matt John sylw at y pwyntiau canlynol: - Cymeradwywyd yr achos cenedlaethol amlinellol ar gyfer Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru 12 mis yn ôl er mwyn uwchraddio'r system LIMS gyfredol;	

	- Yr uchelgais oedd cysoni'r gweithio electronig ar draws y gwasanaeth; - Roedd yr achos busnes yn ymwneud â chyfnod o naw mlynedd, sef dwy flynedd ar gyfer paratoi a gweithredu ac yna saith mlynedd ar gyfer 'bywyd y system'; - Byddai angen buddsoddiad lleol ar gyfer y pedair blynedd gyntaf, ond byddai arbedion wedi hyn, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r arbedion a'r cyfleoedd cyllido er mwyn cefnogi'r gofyniad buddsoddi cychwynnol. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Gofynnodd Nuria Zolle am sicrwydd y byddai'r system newydd yn fwy cydnherth. Cyngorodd Matt John fod y prif broblemau gyda'r system bresennol yn ymwneud â dibynadwyedd y canolfannau data cenedlaethol, ac y dylai'r gwaith uwchraddio diweddar ddatrys y rhain. Ychwanegodd y cydnabuwyd ledled Cymru nad oedd y model presennol ar y lefel y dylai fod ac y byddai hyn yn cael ei ystyried. Yn olaf, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd yr offer ar draws y safleoedd wedi'u huwchraddio. Dylai'r holl bethau hyn arwain at wasanaeth LIMS mwy cadarn y tro hwn. Holodd Nuria Zolle pa wersi a ddysgwyd wrth gyflwyno'r system bresennol. Ymatebodd Matt John na fu'r gefnogaeth genedlaethol i'r system flaenorol yn ddigonol i ddatblygu un a oedd yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn llawn. O'r herwydd, roedd y swyddogaethau'n ddiffygiol, ac roedd hynny hefyd yn wir am y momentwm y tu ôl i weithredu'r system. Erbyn hyn roedd llawer mwy o gefnogaeth i gael y system newydd yn ei lle a chael cysondeb. Bydd gan y cyflenwr a ffeirir lasbrint i'w ddilyn fel bod yr holl systemau'r un fath. Dywedodd Nuria Zolle nad yw'r canlyniadau a fwriedir bob amser yn cael eu cyflawni wrth roi systemau digidol ar waith a gofynnodd am yr hyn a oedd yn digwydd i sicrhau bod y system hon yn gwneud hynny. Dywedodd Matt John fod rhaglen gwireddu buddion nawr ar waith, dan arweiniad Mark Hackett, a bod angen i'r buddion a fwriedir gael eu nodi cyn cymeradwyo'r system er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni hyn.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r adroddiad; - Dylid cymeradwyo achos busnes LIMS, gan gydnabod y bydd angen adennill y costau gweithredu ychwanegol o arbedion ychwanegol neu/a chynnydd datblygu rhwng 2021/22 - 2024/25.	

237/21	GWASANAETH SYMUDOL/YMWELD PET/CT A DDARPERIR GAN <i>INHEALTH</i>, I'W DDEFNYDDIO GAN Y GWASANAETH MEDDYGAETH NIWCLEAR YN YSBYTY SINGLETON	
	Derbyniwyd adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth gwasanaeth symudol/ymweld PET/CT a ddarperir gan <i>InHealth</i>, i'w ddefnyddio gan y gwasanaeth meddygaeth niwclear yn Ysbyty Singleton. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Nododd Nuria Zolle y byddai'r sganiwr newydd yn arwain at gleifion yn treulio hyd at 50% yn llai o amser yn y peiriant ac y dylai'r adroddiadau eglurhaol dynnu sylw at fuddion fel hyn i gleifion. Dywedodd Mark Hackett fod cyhoeddiad cenedlaethol wedi nodi y dylid buddsoddi £25m mewn sganio PET/CT. Byddai Bae Abertawe'n un o'r ychydig i gael peiriant parhaol newydd, a hynny yn Ysbyty Singleton. Byddai hyn yn hwb sylweddol i'r ganolfan ganser. Byddai'r bwrdd iechyd yn cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru i gael un o'r peiriannau cyntaf fel y gallai weithio gyda WHSSC i fynd i'r afael ag ôl-groniadau, nid yn unig o fewn gwasanaethau canser, ond hefyd yn y gwasanaethau cardiaidd a niwrolegol.	
Penderfyniad:	- Dylid cymeradwyo gwasanaeth symudol/ymweld PET/CT gan <i>InHealth</i> i'w ddefnyddio gan y gwasanaeth meddygaeth niwclear yn Ysbyty Singleton.	
238/21	ADRODDIAD PERFFORMIAD	
	Derbyniwyd adroddiad perfformiad mis pump. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Nododd Martyn Waygood fod atgyfeiriadau gan feddygon teulu wedi gostwng tua 50% a gofynnodd a oedd y rhesymau dros hyn yn hysbys o ystyried bod mwy o bobl bellach yn cyrchu gwasanaethau gofal sylfaenol. Dywedodd Emma Woollett ei bod yn rhwystredig nad oedd gwybodaeth fel hyn am wasanaethau meddygon teulu ar gael yn haws gan y byddai'n ddefnyddiol gwybod a welwyd gostyngiad am fod llai o angen atgyfeirio pobl nawr am fod llwybrau eraill, fel <i>Consultant Connect</i>, ar gael er mwyn gofyn am farn meddygon ymgynghorol. CAM GWEITHREDU - dylid sefydlu a yw'r gostyngiad mewn atgyfeiriadau meddygon teulu o ganlyniad i fynediad gwell at ddewisiadau eraill fel <i>Consultant Connect</i>.	IR/DG

	Cyfeiriodd Nuria Zolle at y nifer cynyddol o achosion o friwiau pwyso, gan nodi bod y rhain wedi'u lleihau'n sylweddol ychydig flynyddoedd yn ôl a bod angen canolbwyntio ar wneud hynny unwaith eto. Tynnodd Nuria Zolle sylw at nifer y cleifion a oedd yn ddigon iach yn feddygol i'w rhyddhau o'r ysbyty gan nodi mai'r ddau reswm pennaf dros beidio â'u rhyddhau oedd 'arall' a 'therapiau', a gofynnodd am fwy o eglurder am y rhain. Ymatebodd Mark Hackett y gall unrhyw un sy'n ymwneud â gofal cleifion ddiweddarau'r system olrhain, sef SIGNAL, ac y gwneir hynny weithiau gan rai nad ydynt yn deall y system yn llawn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd darn sylweddol o waith yn cael ei wneud yn y grwpiau gwasanaeth i sicrhau bod y system yn gywir. Yn ogystal, roedd cytundeb bellach ar waith gydag awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu system 'asesydd dibynadwy' fel y gallai claf gael ei asesu i'w ryddhau heb i weithiwr cymdeithasol fod yn bresennol er mwyn lleihau'r oedi roedd rhai cleifion yn ei brofi. Ychwanegodd Alison Clarke, er bod rhai cleifion yn ddigon iach yn feddygol i'w rhyddhau o'r ysbyty, fod angen cymorth therapi arnynt o hyd, ond nad dyna'r rheswm dros yr oedi wrth eu rhyddhau. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion, roedd patrwm gweithio saith diwrnod bellach wedi'i gyflwyno i wasanaethau therapi pan fyddai hynny'n briodol, ac roedd hyn yn helpu i baratoi cleifion i'w rhyddhau yn ystod y penwythnosau.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi r adroddiad; - Mae angen sefydlu a oedd y gostyngiad mewn atgyfeiriadau meddygon teulu o ganlyniad i fynediad gwell at ddewisiadau eraill fel <i>Consultant Connect</i>.	IR/DG
239/21	ADRODDIAD ARIANNOL	
	Derbyniwyd yr adroddiad ar gyfer mis pump. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Sam Lewis sylw at y pwyntiau canlynol: - Y sefyllfa ar gyfer mis pump oedd gorwariant o ychydig dros £2m a oedd yn unol â'r rhagolwg, gan roi hyder y byddai'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn, sef diffyg o £24.4m, yn cael ei gyflawni; - Roedd y gwaith o gyflawni arbedion yn mynd rhagddo ond roedd rhai costau'n codi oherwydd pwysau gweithredol, gyda dewisiadau eraill yn cael eu hystyried yn lle darparu gwelyau ychwanegol;	

	- Derbyniwyd £119m o arian Covid-19 ychwanegol i gwmpasu nifer o feysydd gan gynnwys 'profi, olrhain, diogelu' a brechu ond erbyn hyn roedd angen cael elfen o gynaliadwyedd yng ngwariant y bwrdd iechyd a byddai gwaith yn cael ei wneud dros y mis nesaf i ddeall y costau'n well. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cyfeiriodd Nuria Zolle at yr adroddiadau newyddion diweddar am yr oedi yn y gadwyn gyflenwi a holodd a oedd hyn yn effeithio ar y bwrdd iechyd. Ymatebodd Sam Lewis fod peth oedi'n amlwg a bod yna hefyd gynnydd amlwg yng nghostau'r biliau cyfleustodau, ond roedd y rhain wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau a byddent yn cael eu monitro'n agos. Nododd Maggie Berry y cynnydd yn y costau gofal iechyd parhaus, yn enwedig o fewn iechyd meddwl ac anableddau dysgu, a holodd pa gamau y gellid eu cymryd i'w wneud yn wasanaeth mwy cost-effeithiol er budd ei ddefnyddwyr. Ymatebodd Mark Hackett fod amser yn cael ei neilltuo i edrych ar sut roedd sefydliadau eraill y tu allan i Gymru yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn ystyried yr arferion gorau. Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i p'un ai oedd rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn ffordd fwy amserol yn cael effaith ar gostau gan fod cleifion yn colli llai o'u ffitrwydd. Ystyriwyd yn ogystal a oedd mwy o fuddsoddiad yn gynharach yn y pecyn yn gwella'r costau.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi yr adroddiad.	
240/21	ADRODDIAD TAIR BLYNEDD AR DDEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU) 2016 (I GYNNWYS GWASANAETHAU PEDIATRIG)	
	Derbyniwyd adroddiad tair blynedd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (i gynnwys gwasanaethau pediatrig). Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Gareth Howells sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr adroddiad mewn dwy ran - yr adroddiad sicrwydd tair blynedd a oedd yn amlinellu cydymffurfiaid â'r Ddeddf a'r ymestyniad o'r Ddeddf i gynnwys y wardiau pediatrig; - Roedd yr adroddiad cyntaf yn ystyried effaith Covid-19 a'r holl gamau rhesymol a gymerwyd er mwyn parhau i gydymffurfio; - Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r adroddiadau sicrwydd blaenorol a byddai'r adroddiad tair blynedd yn cael ei	

	gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y Bwrdd i'w osod gerbron y Senedd erbyn 21 Tachwedd 2021. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cymeradwyodd Jackie Davies y gyfarwyddiaeth nyrsio am yr ymdrechion sylweddol i barhau i gydymffurfio â'r Ddeddf er gwaethaf yr heriau parhaus. Atgoffodd Gareth Howells y Bwrdd fod £4m wedi'i fuddsoddi yn ystod y tair blynedd flaenorol ac mai ymestyn hyn i'r gwasanaethau pediatrig oedd y cam olaf.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi'r adroddiad. - Cytunwyd bod y papurau a oedd ynghlwm yn cael eu rhannu yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, ac yn y dyfodol fod y pwyllgorau hyn yn anelu at rannu'r hyn sy'n ofynnol mewn perthynas â'r gweithlu.	
241/21	ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi materion llywodraethu corfforaethol i'w ystyried. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Pam Wenger sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd y Pwyllgor Archwilio yn argymhell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r rheolau sefydlog; - Roedd cylch gorchwyl diwygiedig y pwyllgorau ac adroddiad blynyddol y pwyllgorau wedi'u trafod a'u cytuno gyda'r cadeiryddion a'r swyddogion gweithredol arweiniol.	
Penderfyniad:	- Dylid cymeradwyo’r diwygiadau a wnaed i'r rheolau sefydlog a'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd; - Dylid cymeradwyo cynnwys y rheolau sefydlog diwygiedig, y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog a memorandumw cydddealltwriaeth WHSSC yng nghyfres dogfennau'r bwrdd iechyd yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd; - Dylid cymeradwyo dirprwyo'r cyfrifoldeb comisiynu i WHSSC am wasanaethau timau amlddisgyblaethol HPB a HCC yn ogystal â llawfeddygaeth orthopedig bediatrig a chymeradwyo bod WHSSC yn datblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer llawfeddygaeth orthopedig bediatrig fel y nodir yn adran (vi);	

	- Dylid cymeradwyo adroddiad blynyddol pwyllgor y bwrdd iechyd. - Dylid cymeradwyo cylch gorchwyl pwyllgorau'r bwrdd iechyd.	
242/21	ADRODDIAD CHWARTEROL PARTNERIAETHAU'R GIG	
	Derbyniwyd a nodwyd adroddiad chwarterol partneriaethau'r GIG.	
243/21	ADRODDIAD CHWARTEROL Y PARTNERIAETHAU ALLANOL	
	Derbyniwyd a nodwyd adroddiad chwarterol y partneriaethau allanol.	
244/21	ADRODDIADAU BLYNYDDOL	
	(i) <u>Adroddiad Blynyddol Ymchwil a Datblygu</u> Derbyniwyd a nodwyd adroddiad blynyddol ymchwil a datblygu ar gyfer 2020-21. (ii) <u>Safonau'r Gymraeg</u> Derbyniwyd a nodwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.	
245/21	UNRHYW FATER ARALL	
	Nid oedd unrhyw faterion pellach a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.	
246/21	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 25 Tachwedd 2021.	